**Cofnodion Cyfarfod ar y cyd â Chynrychiolwyr Cynghorau Lleol eraill**

**ynglŷn â Mynwent Newydd ar gyfer Gogledd Orllewin Sir Ddinbych.**

**a gynhaliwyd ar 7 Mai 2024**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Kermode (Rhuddlan)
Y Cynghorydd Val Simmons (Rhuddlan)
Steve Wilson (Rhuddlan)
Y Cynghorydd Jacquie McAlpine (Y Rhyl)
Gareth Nickels (Y Rhyl)
Y Cynghorydd Colin Hardie (Llanelwy)
Y Cynghorydd Peter Scott (Llanelwy)

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Dave Parry (Dyserth).

**2. Datgan Buddiant**
Dim

**3. Trafodaethau**
Croesawodd y Cynghorydd Mike Kermode bawb i'r cyfarfod, gan diolch i bawb am roi eu hamser i fynychu'r cyfarfod.
Roedd wedi dosbarthu dogfen a oedd yn amlinellu'r prif achos dros sefydlu mynwent newydd yng Ngogledd Orllewin Sir Ddinbych, ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig am y materion allweddol.

Roedd pawb yn cytuno nad oedd sylwadau swyddogion Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) mai Mynwent Prestatyn fydd y prif fan claddu yn dderbyniol am nifer o resymau, yn bennaf y lleoliad a hygyrchedd.

Gofynnwyd i bob cyngor roi eu barn ar fater y fynwent newydd. Dywedodd y Cynghorydd Kermode fod hyn y mater hwn wedi'i gynnwys yng Nghynlluniau Tref presennol a blaenorol Rhuddlan. Dywedodd cynrychiolwyr y Rhyl fod y mater wedi bod ar yr agenda ers 2010 a'u bod wedi ymrwymo i amcanion y grŵp. Dywedodd cynrychiolwyr Llanelwy nad yw'r mater wedi'i gynnwys yng nghynllun y ddinas, ond byddai'n ddoeth iddynt fod yn rhan o'r ymgyrch hon oherwydd gallai'r fynwent leol lenwi'n gyflym, yn enwedig gan fod yr amlosgfa mor agos a bod cynnydd mawr wedi bod yn ddiweddar yn nifer y bobl sy'n claddu llwch.

Gofynnwyd ai preswylwyr lleol yn unig fyddai'n gallu defnyddio'r mynwentydd ond dywedwyd nad yw hyn yn wir gan mai CSDd sy'n gyfrifol am fynwentydd.

Roedd dogfen y Cynghorydd Kermode yn edrych ar y prif ystyriaethau ar gyfer mynwent newydd a oedd yn cynnwys maint, costau, ymgynghori â phreswylwyr, lleoliad y safle, datblygiad, a phwy fyddai'n gweithredu'r fynwent ar ôl iddi agor. Roedd wedi derbyn gwybodaeth gan swyddog o Gyngor Sir y Fflint (CSFf) ynglŷn â'r achos busnes ar gyfer ehangu mynwent Penarlâg, a oedd yn dangos y potensial i dalu am gostau adeiladu a gweithredu gan ddefnyddio ffioedd yr incwm claddu. Roedd papurau CSFf yn cyfeirio at y ffaith y gallai 1 hectar ddarparu ar gyfer 1,500 o feddau.

Dywedodd y Cynghorydd Kermode ei fod wedi cysylltu ag ymgynghoriaeth arbenigol a fyddai'n fodlon cynnal ymarferiad desg am ddim ar rai o'r safleoedd arfaethedig, ond y byddai'n costio tua £10,000 i gynnal asesiad manwl ar unrhyw safleoedd lle'r oedd potensial ar gyfer datblygu.

Cafwyd trafodaeth yngŷn â pha mor fawr fyddai'n rhaid i'r safle newydd fod, sawl llain bedd sydd eu hangen bob blwyddyn ac fe gwestiynwyd y data gan CSDd. Cytunwyd i ofyn i Swyddog Claddedigaethau CSDd am ragor o wybodaeth am gladdedigaethau ac amlosgiadau yn ogystal â'r costau rhedeg a'r incwm ar gyfer mynwent Prestatyn.

Cytuwyd mai'r cam nesaf fydd cyflwyno'r achos am fynwent newydd gerbron CSDd ar lefel aelodau, gan ddefnyddio trefniadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau. Y prif nod yw cael trafodaeth ar y mater ar lefel y cabinet. Awgrymwyd bod y cynghorau lleol yn ardal y Grŵp Aelodau Ardal hwn a'r rhai y mae diffyg capasiti claddu yn effeithio arnynt yn gweithredu ar y cyd ar y mater hwn. Cytunwyd ar hyn a bydd Cyngor Tref Rhuddlan yn cydlynu'r gwaith.

Cytunwyd hefyd y dylai aelodaeth bresennol y grŵp barhau, ni waeth a fydd unrhyw newidiadau yn swyddi Maerau'r cynghorau gwahanol, er mwyn sicrhau cysondeb wrth ymdrin â'r mater.

**Llofnodwyd …………………………………………………………………………………….Y Cynghorydd Mike Kermode**